**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Llun, 29 Tachwedd 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ivor Williams (Cadeirydd), y Cynghorwyr John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gareth Davies, Ifan Davies, Elizabeth Evans, Keith Evans, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Dan Potter, Rowland Rees-Evans, Lynford Thomas, Wyn Thomas a Matthew Woolfall Jones

**Hefyd yn bresennol:** y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams (Aelodau Cabinet)

Y Cynghorydd Gwyn James.

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Eifion Evans, Prif Weithredwr; Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Miss Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Craffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(2:00pm - 3:30pm )

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Peter Davies MBE ac Endaf Edwards am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**

Dim.

**3 Gweledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu ty eu hunain, gan y Grwp Annibynnol**

Ystyriwyd Adroddiad ynglŷn â Gweledigaeth y Grŵp Annibynnol ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain. Roedd y Cadeirydd am i'r mater gael ei ystyried oherwydd y sefyllfa economaidd sy'n wynebu pobl ifanc Ceredigion a'r diffyg cyfleoedd iddynt brynu eu cartref cyntaf.

Dywedwyd bod y Grŵp Annibynnol wedi datblygu cynnig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ei ystyried gan greu llwybr i bobl ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain. Cyflwynwyd adroddiad gan y Grŵp Annibynnol yn amlinellu 'Gweledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain.' Dywedwyd bod cais wedi'i wneud am ddata i gefnogi'r papur a chafodd y wybodaeth hon ei chyflwyno hefyd. Roedd tystiolaeth yn dangos mai prin oedd y cyfleoedd i

bobl ifanc fedru prynu eu cartref cyntaf o achos yr economi yng Ngheredigion.

Dywedwyd mai nod y cynnig hwn oedd cynnig cynllun a fyddai'n cynorthwyo pobl ifanc i brynu eu cartref cyntaf.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a'r cynigion a geir ynddo, gyda'r bwriad o ofyn i'r Swyddogion am adroddiad pellach ynghylch ei ymarferoldeb. Pe byddai'r Aelodau yn cytuno i ofyn i'r Swyddogion ystyried ymarferoldeb y cynigion, cynigiwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad pellach ar 13 Ionawr 2022, cyn belled â bod y Swyddogion yn medru ystyried y cynnig erbyn y dyddiad hwnnw.

Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig a gwnaeth pawb gydnabod yr angen i ddatblygu cynllun a fyddai'n cefnogi ac yn galluogi pobl ifanc i brynu eu cartref cyntaf. Dywedwyd hefyd y byddai hyn o fudd i economi a diwylliant y Sir.

Yn dilyn cwestiynau a sylwadau o'r llawr, CYTUNWYD yn unfrydol i wneud y canlynol:-
(i) cefnogi'r 'Weledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain' a'i throsglwyddo i'r Swyddogion er mwyn iddynt lunio adroddiad ar ymarferoldeb y cynllun;
(ii) ar ôl i'r swyddogion ystyried y cynllun, gofyn iddynt ddod yn ôl i'r pwyllgor craffu hwn i gyflwyno eu hargymhellion; ac
(iii) os caiff y cynllun ei gymeradwyo gan y Cabinet / y Cyngor yn y pen draw, gosod yr opsiwn ariannu a ffefrir yn y drefn o bennu'r gyllideb.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 13 Ionawr 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**